OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 193 (Cy.37)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 24, y Coldra i Gyffordd 26, Malpas) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Ionawr 2011* |
| *Yn dod i rym* | *7 Chwefror 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4), (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y drafffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar y traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Chwefror 2011 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 24, y Coldra i Gyffordd 26, Malpas) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 7 Chwefror 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro

ystyr "y darnau o'r drafffordd" *("the lengths of the motorway")* yw'r darnau hynny o'r drafffordd a bennir yn Atodlenni 1 to 11 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl

neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y gerbytffordd tua'r dwyrain nac ar y gerbytffordd tua'r gorllewin yn y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Pan fo symudiadau cerbydau, o dan erthygl 3, wedi eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 18, heb eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin ar y draffordd, ac eithrio i gyfeiriad y dwyrain.

**5.** Pan fo symudiadau cerbydau, o dan erthygl 3, wedi eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 18, heb eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain ar y draffordd, ac eithrio i gyfeiriad y gorllewin.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r slipffordd a bennir yn Atodlen 2.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r slipffordd a bennir yn Atodlen 3.

**8.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r slipffordd a bennir yn Atodlen 4.

**9.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r slipffordd a bennir yn Atodlen 5.

**10.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 6.

**11.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 7.

**12.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r drafford a bennir yn Atodlen 8.

**13.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr yn y darn o'r drafford a bennir yn Atodlen 9.

**14.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sydd â'i led yn 1.98 metr neu'n fwy fynd yn lôn allanol y darnau o'r drafford a bennir yn Atodlen 10.

**15.** Mae darpariaethau Rheoliad 5 a Rheoliad 9 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982**(3)**, mewn perthynas â gyrru cerbydau, drwy hyn yn cael eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i lain galed y darn o'r drafford a bennir yn Atodlen 11.

**16.** Mae rheoliad 6(3) o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982 **(3)** drwy hyn yn cael ei atal:

(a) i'r graddau y mae a wnelo â lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin ar y darn o'r drafford a bennir yn Atodlen 1, yn ystod y cyfryw adegau pan fo'r gwaharddiad a bennir yn erthygl 4 mewn grym; a

(b) i'r graddau y mae a wnelo â lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain ar y darn o'r drafford a bennir yn Atodlen 1, yn ystod y cyfryw adegau pan fo'r gwaharddiad a bennir yn erthygl 5 mewn grym.

**17.** Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974**(4)** i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r drafford a bennir yn Atodlen 4, drwy hyn yn cael eu hatal yn ystod y cyfryw adegau pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 8 mewn grym.

**18.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16 a 17 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

**19.** Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 18 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig y 28 Ionawr 2011

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr
Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

**(3)** O.S. 1982/1163

**(4)** O.S. 1974/502

## ATODLEN 1

Y darn hwnnw o'r draffordd sy'n ymestyn o bwynt 150 metr i'r gorllewin o ben gorllewinol Twnelau Bryn-glas i gyfeiriad y dwyrain yn gyffredinol hyd at bwynt 480 metr i'r dwyrain o ben dwyreiniol y cyfryw Dwnelau.

## ATODLEN 2

Hyd cyfan y slipffordd ymuno â'r draffordd tua'r dwyrain yng Nghyffordd 25 (Caerllion).

## ATODLEN 3

Hyd cyfan y slipffordd ymadael o'r draffordd tua'r dwyrain yng Nghyffordd 25A.

## ATODLEN 4

Hyd cyfan y slipffordd ymuno â'r draffordd tua'r dwyrain yng Nghyffordd 26 (Malpas).

## ATODLEN 5

Hyd cyfan y slipffordd ymadael o'r draffordd tua'r gorllewin yng Nghyffordd 26 (Malpas).

## ATODLEN 6

Y darn hwnnw o'r draffordd sy'n ymestyn o bwynt ar ddechrau'r trwyno ffisegol ar y slipffordd ymadael tua'r gorllewin yng Nghyffordd 24 hyd at bwynt ar ddiwedd y trwyno ffisegol ar ddiwedd y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 24.

## ATODLEN 7

Y darn hwnnw o'r draffordd sy'n ymestyn o bwynt ar ddechrau'r trwyno ffisegol ar y slipffordd ymadael tua'r gorllewin yng Nghyffordd 25 hyd at bwynt ar ddiwedd y trwyno ffisegol ar ddiwedd y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 26.

## ATODLEN 8

Y darn hwnnw o'r draffordd sy'n ymestyn o bwynt ar ddechrau'r trwyno ffisegol ar y slipffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 26 hyd at bwynt ar ddiwedd y trwyno ffisegol ar ddiwedd y slipffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyffordd 25A.

## ATODLEN 9

Y darn hwnnw o'r draffordd sy'n ymestyn o bwynt 550 metr i'r gorllewin o ben gorllewinol Twnelau Bryn-glas tua'r dwyrain yn gyffredinol hyd at bwynt 880 metr i'r dwyrain o ben dwyreiniol y cyfryw Dwnelau.

## ATODLEN 10

Y darnau hynny o gerbytffyrdd y draffordd, tua'r gorllewin a thua'r dwyrain, o borthol dwyreiniol Twnelau Bryn-glas hyd at Bont Droed Treberth.

## ATODLEN 11

Y darn hwnnw o gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain o bortholion dwyreiniol Twnelau Bryn-glas hyd at drwyn ymuno'r slipffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyffordd 25A.